ATODIAD C / APPENDIX C
Ymatebion o'r Ffurflen Ymateb Ar-lein / Responses from the Online Response Form

NODER - Mae'r sylwadau wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'r ymatebion.
NOTE - Comments have been quoted directly from the responses.

| Rhif Ymateb | Rwy'n ymateb fel: | Darparwch eich sylwadau ynghylch y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog os gwelwch yn dda | Ydych chi eisiau cynnig unrhyw opsiwn arall fyddai'n ymateb i'r sefyllfa o ddiffyg capasiti sydd y tu ôl i'r cynnig, ond allai gael effaith fwy cadarnhaol? | **Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol**<br>A oes yna unrhyw faterion, neu effeithiau posib, rydych chi'n teimlo y dylai'r Cyngor eu hystyried, ac nad ydynt eisoes wedi cael sylw yn yr asesiad effaith neu ddogfennau eraill yn yr ymgynghoriad?<br>Yn benodol, a yw'r penderfyniad yn debygol o gael mwy neu lai o effaith ar rai grwpiau o bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. | Oes yna unrhyw newidiadau y gellir ei wneud i'r cynnig yn eich barn chi fyddai yn arwain at effaith fwy cadarnhaol, neu fyddai'n lleihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol posib i'r Gymraeg, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar statws y Gymraeg yn y gymuned? | **Asesu'r Effaith Llesiant**<br>A oes unrhyw faterion y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'u hasesiad effaith? | **Asesu Effaith ar y Gymuned, Ansawdd a Safonau Addysg, Trefniadau Teithio**<br>A oes unrhyw faterion y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'u hasesiad effaith? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Response Number | I am responding as: | Please provide your comments regarding the proposal to increase the capacity of Ysgol Chwilog from 65 to 95 learners. | Do you want to offer any other option that would respond to the lack of capacity behind the proposal, but could have a more positive impact? | **Assessing the Impact on Characteristics of Equality, the Welsh Language and Socio-Economic Disadvantage**<br>Are there any issues, or potential impacts, that you feel the Council should consider, and that have not already been addressed in the impact assessment or other documents in the consultation?<br>In particular, is the decision likely to have a greater or lesser impact on certain groups of people with equality characteristics. | Are there any changes that can be made to the proposal in your opinion that would lead to a more positive effect, or would reduce or remove any possible negative effects on the Welsh language, on opportunities for people to use the Welsh language and on the status of the Welsh language in the community? | **Assessing the Well-being Impact**<br>Are there any issues that the Council should consider as part of their impact assessment? | **Community Impact Assessment, Education Quality and Standards, Travel Arrangements**<br>Are there any issues that the Council should consider as part of their impact assessment? |
| 1 | Llywodraethwr | Er ei fod yn ateb tymor byr digon derbyniol, mae'n anodd gweld sut mae caban yn diwallu angenion yr ysgol fel un endid. Bydd cynyddu'r capasti yn cael effaith ar y gegin a'r ffreutur, ac nid oes ystafell athrawon/staff bwrpasol yn yr ysgol. Nid yw'n amlwg os oes toiledau yn y 'caban', gan o bosib fynd a'r plant yn ol i oes Victoria gyda'r angen i groesi'r iard i gael toilet. Gan eich bod wedi nodi bod niferoedd yr ysgol wedi cynyddu dros nifer o flynyddoedd, dylai strwythyr mwy parhaol i wella'r ysgol fod mewn grym ers peth amser, yn hytrach na chaban 11fed awr ar ddeg. | Dylai opsiynnau eraill fod wedi eu hystyried flynyddoedd yn ol, gan ei bod bellach braidd yn hwyr i hyd yn oed ystyried posibiliadau eraill yn anffodus. O gysidro problemau parcio, diffyg ystafell athrawon, a chegin/ ffreutur all brofi'n annigonol, efallai mai ail-leoli'r ysgol fyddai wedi bod y syniad gorau, petai wedi cael ei gysidro ddigon buan. | Nifer o rieni sy'n medru'r Gymraeg yn dymuno peidio ei siarad a'u plant. Rhai o'r plant yn cyrraedd yr ysgol, gyda Chymraeg annigonol i allu ymdoddi i fewn i lif naturiol yr ysgol. Oes felly angen dosbarth arall er mwyn gwella Cymraeg y plant hyn fel nad yw eu diffygion hwy yn cael effaith negyddol ar ddosbarthiadau y rhai sy'n meddu'r Gymraeg? | A yw hi'n amser i ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg, er mwyn gwarchod buddiannau? | | Cynyddu problemau parcio, na fydd yn rhai tymor byr, ond yn rhai parhaol. |
| 2 | Llywodraethwr | Rwyf yn teimlo yn gryf iawn fod yr ysgol angen y buddsoddiad hwn. Mae caniatad wedi ei roi i adeiladu tair stad newydd o dai yn Chwilog, gydag un bellach wedi ei adeiladu a phobl wedi symud i mewn i'w tai. Mae hyn wedi cynnyddu poblogaeth y pentref, sydd wedi dilyn i lawer mwy o blant yn byw yma, ac eisiau mynychu yr ysgol. Mi fydd hyn yn cynnyddu eto. Mae'r pentref yn ffynnu, ac mae angen addasu'r ysgol i gyd fynd a hyn. Mae naws Cymraeg yr ysgol yn atynnu teuleuoedd ifanc i'r pentref, a byddai yn siom fawr iawn peidio gallu cynnig lle i bob plentyn sydd yn byw yn y pentref i fynychu yr ysgol. | | | | | |
| 3 | Cyngor Cymuned Llanystumdwy | Cytuno y dylid ychwanegu dosbarth ychwanegol yn Ysgol Chwilog | Nagoes | | Nagoes | | |
| 4 | Rhiant | Croesawu y cynnig | Na | Na | Na | Oes posibl ystyried yr ardal staff bresenol mewn unrhyw ddatblygiad o ran eu llesiant nhw? Mae'r ardal bresenol yn fychan iawn fel mae nifer staff wedi tyfu. Mae hyn hefyd yn wir am nifer y cyfleusterau megis toiledau i staff a phlant, ynghyd â lle i fwyta cinio | Y sylw cyntaf yw nad yw'r cynnig i weld yn cyfarch y gofyn yn llawn o ran beth yw'r amcan fydd niferoedd plant yr ysgol erbyn Medi 2027 (109), mae hynny yn effeithio'r gofyn nid yn unig ar nifer y dosbarthiadau, ond hefyd am faint y dosbarthiadau presenol. Oes posib hefyd ystyried addasrwydd y neuadd sy'n hynod o fach i ysgol o 109 blant, ynghyd â materion mwy ymarferol arall sy'n codi fel gofod storio / gofod i gynnal gwaith 1 i 1. Byddai hefyd yn braf iawn pe gellid lincio unrhyw gaban i'r prif adeilad rhyw ffordd. Mae na lot o bryder am y traffic gan mai lon fach gul iawn sy'n arwain at yr ysgol, ac yn hynny o beth mae'n biti na fyddai modd adnabod llain o dir cul i greu llwybr troed i'r ysgol o'r brif stryd yn y pentref fel nad ydi cerddwyr yn gorfod dod fyny'r lon gul at yr ysgol o gwbl. Byddai hynny hefyd yn lleihau traffic sy'n troi fyny y lon fach gul tu allan i'r ysgol |
| 5 | Corff Llywodraethwyr | Croesawn egwyddor y cynnig yma fel datrysiad dros dro, ond yn hir dymor mae'n hollol amlwg nad ydyw yn cyfarch y rhagolygon capasiti'r ysgol o 109 erbyn 2027, sydd bellach ond pedair mlynedd addysgol i ffwrdd. Mae gennym gonsyrn nid yn unig am nifer y dosbarthiadau ond eu maint hefyd - ynghyd á gweddill adeilad yr ysgol gan gynnwys y neuadd, ystafell athrawon, toiledau staff, storfeydd addas, gofod addas a thawel i leoli grwpiau targed. Mae angen edrych ar addasrwydd yr ysgol yn ei chyfanrwydd. Er diogelwch i blant a staff byddai'n fuddiol ystyried bod linc rhwng y caban a prif adeilad yr ysgol. | Mae hyn yn ymateb byr dymor i sefyllfa capasiti'r ysgol. Mae'n hanfodol bod ystyriaeth yn cael i roi i beth yw'r cynllun tymor canolig sydd i'r ysgol er mwyn cyfarch y cynnydd mewn niferoedd disgyblion. Mae'n ddymuniad cryf gan y Corff i gael gwybodaeth am beth fydd y cynllun cyn gynted á phosib. Mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod potensial cryf o gael dwy stad o dai newydd yn y pentref - a'r effaith pellach all hynny gael ar niferoedd disgyblion yr ysgol yn y dyfodol agos iawn. | Dim toiled hygyrch ar y safle o gwbl ar hyn o bryd | Dim | Llesiant staff - angen gofod pwrpasol iddynt gael eu cinio (ystafell athrawon addas). Angen adolygu cyfleusterau toiledau staff a disgyblion. Llesiant disgyblion - angen gofod addas i gynnal sesiynau grwpiau targed. | Rhaid sicrhau bod maint y dosbarthiadau yn addas i sicrhau ansawdd a safonau addysg uchel. Mae ambell ystafell ddosbarth ar hyn o bryd yn rhy fach. Mae hyn yn cael effaith ar lesiant staff. Mae mynediad i'r ysgol ar ffordd fach gyfyng yn bryder, a ellid ystyried opsiynau lliniaru ar gyfer traffig. Mae'n rhaid sicrhau diogelwch disgyblion a rhieni a'u teuluoedd wrth gerdded i'r ysgol. Un opsiwn mae'n werth ei ystyried ydi i adnabod llain o dir addas i'r Cyngor brynu er mwyn creu llwybr troed o'r brif stryd i fyny at iard yr ysgol. |
| 6 | Llywodraethwr | Rwy'n croesawy'r cynnig fel datrysiad dros dro. Mae'r ysgol mewn dybryd angen cynyddu ei gapasiti. Mae'r ysgol eisoes wedi profi cynydd sylweddol yn nifer y disgyblion ac mae rhagolygon o gynydd pellach heibio 95 disgybl yn y blynyddoedd nesaf. Bydd angen edrych felly ar gynyddu'r capasiti ymhellach yn y dyfodol ac ar ddatblygu adeiladau presennol ac adnoddau'r ysgol i gyfarch y cynydd. | Bod y Cyngor yn edrych i ddatblygu ac uwchraddio'r ysgol ymhellach yn y blynyddoedd nesaf | Nagoes | Nagoes | Nag oes | Nagoes. Mae cynyddu'r capasiti a chyfleusterau'r ysgol yn mynd i arwain y ffordd at wella'r ansawdd dysgu. |
| 7 | Rhiant | Er yn croesawu'r cynnig yma fel ateb dros dro i sefyllfa capasiti yr ysgol, mae angen meddwl am opsiynau hir dymor hefyd gan bod y niferoedd yn cynyddu yn bell dros 95 erbyn 2027.<br>Fel rhiant i blentyn Meithrin sydd mewn dosbarth oddi ar y safle eleni, mae'n bwysig iawn bod y caban am fod yn rhan naturiol o'r ysgol a ddim yn cael ei weld fel adnodd ar wahan. Bosib ystyried coridor neu linc o'r prif adeilad i'r caban falla.<br>Gyda cynnydd yn niferoedd yr ysgol, yn naturiol mae hynny yn golygu bod ystyriaeth angen ei roi i gynyddu maint pethau eraill yn yr ysgol hefyd - storfeydd, maint y neuadd, toiledau, maint y dosbarthiadau ayyb. | Yn debyg i gwestiwn 6 - mae'r opsiwn yn iawn fel ospiwn dros dro, ond gyda'r cynnydd mewn pobl yn dod i fyw i'r pentref a dwy stad o dai arall ar y ffordd mae'n bwysig bod ystyriaeth hir dymor yn cael ei roi. | Dim | Dim | Dim | Angen sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ddiogelwch y plant wrth gyrraedd a gadael yr ysgol, gyda'r traffig sydd yno wrth gludo plant a traffig cyffredinol sy'n gyrru drwy'r pentref. Drwy gynyddu'r capasiti mae'n debyg mai gwaethygu fydd y broblem yma. |
| 8 | Aelod Staff | Mae'r ysgol wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym wir angen mwy o le er mwyn cadw'r disgyblion yn ddiogel ac yn gyfforddus.<br>Nid oes ar hyn o bryd , digon o le i bawb fwyta yn y neuadd, mae rhai o'r plant yn gorofd bwyta yn y cyntedd.<br>Nid oes lle i bawb yn y neuadd pan yn cynnal gwasanaeth wythnosol.<br>Mae rhai o'r dosbarthiadau yn gyfyng iawn hefyd e.e y dosbarth canol ble mae blynyddoedd 2 a 3.<br>Byddai caban yn estyniad gwerthfawr iawn i'r ysgol a byddai'n syniad rhoi blynyddoedd hynaf yr ysgol yma gan eu bod yn fwy annibynnol ac aeddfed.<br>Mae staff sydd ar GPA angen ystafell benodol sy'n ddistaw a chyfforddus ac yn cynnig digon o le.<br>Nid oes ychwaith ystafell athrawon yma ar hyn o bryd sydd yn broblem arall. Does gennym ni fel staff, ddim lle diogel i gadw ein bagiau a'n cotiau. Rydym hefyd yn gorfod defnyddio un o'r dosbarthiadau i fwyta ein cinio.<br>Byddai'r staff yn gwerthfawrogi toiled addas sy'n fwy preifat o ran ei leoliad - ar hyn o bryd, mae'r toiled reit wrth y brif fynedfa a drws nesaf i'r swyddfa sydd ddim yn ddelfrydol iawn! Mae dynion a merched yn rhannu'r un toiled.<br>Nid oes ystafell neilltuol ar gyfer y meithrin yma - ar hyn o bryd maent yn cael eu dysgu yn neuadd y pentref - nid yw hyn yn sefyllfa delfrydol.<br>Gan fod niferoedd mawr ym mhob dosbarth bellach, nid oes lle i bawb roi eu cotiau ar begiau yn anffodus. Canlyniad hyn yw bod cotiau a bagiau ar hyd y lloriau yn aml sydd yn fler ac yn hynod o beryglus.<br>Tybed a fyddai loceri yn fwy addas neu cyntedd cotiau mwy ar gyfer pob dosbarth - ond eto mae lle yn brin!<br>Gan ein bod yn annog rhieni i beidio defnyddio eu ceir pan yn casglu eu plant, maent yn aml yn gorfod sefyll yn yn y gwynt a'r glaw ar dir yr ysgol. Tybed a fyddai modd cael rhyw fath o loches ar eu cyfer?<br>Rydw i hefyd yn amau fod ystafell toiledau'r plant yn rhy fychan erbyn hyn - wrth eu gyrru i olchi eu dwylo cyn cinio, mae rhesi a rhesi o blant yn gorfod disgwyl eu tro.<br>Mae tamprwydd i'w weld yn nosbarth blwyddyn 4, 5 a 6 ar hyn o bryd - cafodd ei drin sbelan yn ol, ond mae'n ei ol eto. mae plastr yn disgyn oddi ar y waliau. | Opsiwn arall yn hytrach na chaban fyddai estyniad iawn i'r ysgol fel bod y digyblion i gyd o dan yr un to. | N/A | | Bydd y caban yn cynnig mwy o le i'r disgyblion a'r staff fydd yn creu awyrgylch brafiach a mwy diogel i weithio ynddo. Felly yn effeithio ar les pawb yn y bon. Gallwn wedyn gael ystafelloedd mwy preifat ar gyfer CPA, grwpiau ymyrraeth ayb | Mae parcio wedi bod yn broblem barhaus yma - nid oes lle i rieni droi rownd ayb Gall fod yn sefyllfa beryglus ar brydiau. Bydd loriau a faniau hefyd yn dod yma gyda nwyddau i'r gegin ayb ac nid oes fawr o le iddyn hwythau droi. Heb os ac oni bai byddai safonau addysg yn gwella a byddai'r ysgol yn le brafiach i fod ynddi. |
| 9 | Aelod Staff | Mae'n angenrheidiol ein bod yn cael mwy o le yn yr ysgol er mwyn gallu creu awyrgylch braf a saff.<br>Mae angen ystyried y canlynol:<br>- neuadd fwy er mwyn fod yr holl ddisgyblion yn gallu cael gwasanaeth gyda'i gilydd a bwyta eu cinio. Ar hyn o bryd, mae rhai disgyblion yn bwyta yn y neuadd. Braf byddai gallu cynnal sesiynnau ymarfer corff yno hefyd.<br>- toiledau staff mewn lleoliad addas. (Ar hyn o bryd mae dynion a merched yn rhannu un toiled sydd drws nesaf i Swyddfa'r pennaeth. Mae'r holl staff yn teimlo nad yw hyn yn cynnig prefatrwydd).<br>- ystafell athrawon addas sy'n caniatad digon o le i gadw eiddo personol staff e.e. cotiau a bagiau. (Ar hyn o bryd rydym fel staff yn bwyta cinio mewn ystafell ddosbarth).<br>- ystafell cpa ble mae modd gweithio mewn distawrwydd.<br>- Lleoliad ar gyfer y Meithrin. (Ar hyn y bryd, mae'r Meithrin yn neuadd y Pentref)<br>- Maint y dosbarth canol sef 2 & 3. (Does dim digon o le i fwy o ddisgyblion). Byddai caban yn estyniad gwerthfawr i'r ysgol.<br>- Dim digon o doiledau ar gyfer y plant. Mae dau doiled yn y Cyfnod Sylfaen a hynny ar gyfer 31 o blant. Mae'r broses o gael pawb i fynd i toiled a golchi dwylo cyn cinio yn hunllef.<br>- Does dim digon o ardaloedd pegiau sy'n golygu fod llawer o gotiau a bagiau ar y llawr sy'n beryglus iawn. Tybed a fyddai modd cael ardal penodol i bob dosbarth?<br>-Os fyddai y blynyddoedd 2 a 3 yn symud i'r dosbarth mwyaf (Dosbarth 4,5,6 ar hyn o bryd) bydd angen drws allanol fel bod modd cael ardaloedd dosbarth thu allan.<br>-Mae tamprwydd yn yr ystafell ddosbarth blynyddoedd 4,5 a 6, yn enwedig o gwmpas y ffenestri. | Estyniad parhaol i'r ysgol yn hytrach na chaban. | N/A | | Bydd llawer mwy o le sy'n golygu bydd mwy o chwarae teg i'r disgyblion e.e. tawelwch i weithio ac ardaloedd i gynnal sesiynnau ymyraethau amrywiol. | Trefniadau Teithio - Mae parcio yn broblem. Nid oes lle i rieni droi rownd na pharcio wrth yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod y rhieni yn stopio eu ceir mewn llefydd anaddas, thu allan i giat yr ysgol. Mae hyn yn achosi traffig ac yn beryg.<br>Ansawddd a safonau addysg - Os byddai mwy o le ar gael rwy'n ffyddiog y byddai'r disgyblion yn llwyddo i weithio'n well. Hynny yw byddai'r dosbarthiadau yn fwy a bydd ardaloedd ymyraethau tawel yn bosib. |
| 10 | Aelod Staff | Yn sicr mae angen ystyried buddsoddi mewn datblygu'r ysgol.<br>- Nid oes man penodol i'r staff gael amser CPA.<br>- Nid oes ystafell i'r meithrin ar dir yr ysgol, maent ar hyn o bryd yn cael eu dysgu yn neuadd y pentref. Nid yw hyn yn ddelfrydol.<br>- Dim digon o doliedau i'r plant, mae'r plant ieuengaf yn gorfod rhannu 2 doiled rhwng 31 o blant.<br>- Dim ardal digon fawr i gadw bag a chotiau y plant drwy'r ysgol, mae rhai o blant Cyfnod Sylfaen yn gorfod symud eu cotiau a bagiau i fyny i dop yr ysgol er mwyn cael lle. Nid yw hyn yn briodol gan fod y plant yn gallu crwydro.<br>- Mae'r neuadd yn fach i'r niferoedd sydd gennym. Mae rhai o blant sydd ar focs bwyd yn gorfod bwyta eu cinio yn y coridor.<br>- Mae dosbarth blynyddoedd 2 a 3 yn gyfyngiedig iawn ar gyfer y niferoedd sydd gennym yn dod i fyny o'r Cyfnod Sylfaen. Yn sicr byddwn yn elwa yn fawr o gael caban i ddarparu ar gyfer y niferoedd o ddisgyblion sydd gennym.<br>- Mae toiledau y staff wrth y brif fynedfa, nid yw hyn yn ddelfrydol. Ac mae rhaid i ddynion a merched rannu yr un toilet.<br>- Nid oes gennym ystafell staff i gael eistedd yno i gael paned a chinio. Rydym yn gorfod defnyddio un o'r dosbarthiadau i fwyta ein cinio.<br>- Nid oes lle yn y neuadd i gynnal gwasanaethau a chyfarfodydd fel ysgol gyfan.<br>- Llawer o damprwydd o gwmpas y ffenestri yn y dosbarthiadau | Estyniad iawn ar gyfer cael y disgyblion i gyd o dan yr un to | N/A | | Yn sicr bydd y caban yn sicrhau awyrgylch brafiach i'r disgyblion a'r staff. | Mae llawer o rieni yn dod gyda char ac nid oes digon o le iddynt barcio. |
| 11 | Aelod Staff | Maer ysgol wedi cynyddu ers i mi gychwyn,ac rwyf yn teimlo ein bod angen fwy o le ir disgyblion ar staff.Nid oes digon o le i bawb fwyta ei cinio yr un pryd, maer amser gwasanaeth hefyd efo dim digon o le.Nid oes ystafell athrawon i ni gael mynd i bwyta ein bwyd a cael seibiant mi fuasai neis i ni fel staff gaer loceri ein hunain i gadw pethau personol a cotiau a.y.y.b ar hun o bryd rydym yn gorfod bwyta ein cinio yn un or dosbarth.<br>Byddair staff i gyd yn gwertthfawrogi toiled fwy preifat o ran lle,ar hun o bryd mae o reit wrth y brif fynedfa a drws nesa i swyddfa y pennaeth a hefyd rydym yn gorfod rhannu efo dynion.<br>nid oes ystafell neilltuol ir dosbarth meithrin teimlo nad ydynt yn perthyn ir ysgol gan eu bod nhw yn y neuadd y pentref.<br>nid oes ddigon o begiau ir plant rhoid ei bagiau a cotiau,felly ar hun o bryd llawer ohonynt ar llawr yn ffler.<br>mi fuasai riw fath o loches yn braf ir rhieni i gysgodi or gwynt ar glaw.<br>Nid oes ddigon o doiledau ir plant dosbarth blwyddyn un a derbyn.<br>Mae yna tamprwydd yn nosbarth 4,5 a 6 ar hyn o bryd. | Opsiwn yn lle caban yw cael estyniad ir ysgol lle fysar plant i gyd o dan yr un to. | N/A | | Mi fuasai caban yn brafiach ir plant ar staff, hefyd mi fuasent yn teimlo ei bod yn perthyn ir ysgol gweld ni gyd o dan yr un to. | Nid oes lle parcio ir rhieni nol ei plant, mae gallu fod yn reit beryglus amser plant dod ir ysgol ac adref,llawer yn bagio fewn ir iard barcio y staff oherwydd does ganddynt dim lle i droi. |
| 12 | Rhiant | Mae niferoedd y plant sy'n mynychu wedi cynyddu yn sylweddol ac felly mae diffyg lle yn broblem fawr. Does dim digon o doiledau i blant Blwyddyn Derbyn ac 1. Dim ystafell pwrpasol i'r meithrin ac yn gorfod defnyddio neuadd y pentref ac felly dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn rhan o'r ysgol. Does dim lle addas i'r plant hongian eu cotiau a'u bagiau ac yn dueddol o orfod gadael y bagiau ar y llawr sydd yn beryg i bobl faglu.<br>Does dim lle addas i aelodau staff i gael lle i gael paned na cinio gan ein bod y defnyddio ystafell ddosbarth i fwyta ein cinio a ddim yn cael seibiant pwrpasol gan nad oes ystafell addas ar ein cyfer. Hefyd yn ystod cyfnod cyfnodau cynllunio athrawon does dim stafell addas i gael llonyddwch heb orfod ateb y ffon neu aelod arall yn dod i mewn i estyn adnoddau.<br>Mae'r neuadd yn rhy fach i bawb gael cinio gyda'u gilydd ac hefyd yn anaddas i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan am nad ydi'r neuadd ddigon mawr.<br>Mi fysai'n hwylus cael lle pwrpasol i aelodau staff cael cadw pethau personol yn ddiogel gan nad oes lle/stafell i ni gadw ein cotiau a bagiau. Dydi toiled y staff ddim mewn lle addas chwaith gan ei fod drws nesaf i'r swyddfa ac yn rhy agos at y fynedfa. | Byddai cael estyniad yn fwy addas er mwyn rhoi'r cyfleuoedd addysgu gorau posib i'r disgyblion yn ogystad a cael pawb o deulu'r ysgol o dan yr un to i gael teimlad o berthyn. | N/A | | Bydd cael caban yn datrys y broblem o diffyg lle i un dosbarth o blant. | Does dim lle addas i rieni ddod a car fyny lon yr ysgol i nol y plant, diffyg lle pario. |
| | | Derbyniwyd 3 ymateb lle nad oedd yr ymatebwyr yn fodlon i'r sylwadau gael eu cyhoeddi | | | | | |

# CYNGOR CYMUNED LLANYSTUMDWY

Clerc : **BETHAN PARRY JONES**

Ffôn : (01766 810 614)
e.bost : clercccllanystumdwy@gmail.com

DERWEN GAM,
CHWILOG
PWLLHELI,
GWYNEDD.
LL53 6SP

Eich cyf:

18fed o Dachwedd, 2022.

Adran Moderneiddio Addysg,
Cyngor Gwynedd,
Pwllheli.

Annwyl Syr/Fadam,

**Ymgynghoriad statudol cynyddu capasity Ysgol Chwilog**

Mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Cymuned ar 03.11.2022 trafodwyd yr ymgynghoriad uchod.

**Gofynwyd i mi eich hysbysu fod y Cyngor Cymuned yn ffafrio'r opsiwn o gael dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog a dim y ddau opsiwn arall.**

Yn gywir,

*Bethan Parry Jones,*
Clerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023. Bydd hwn yn gynnydd o dros 25% i nifer y lleoedd presennol.**

## Cyflwyniad

Mae hwn yn gynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023.

Mae'r cynigiwr yn nodi bod nifer y disgyblion yn Ysgol Chwilog wedi cynyddu'n gyson ers sawl blwyddyn a bod yr ysgol wedi cyrraedd ei llawn gapasiti, sef 65 o ddisgyblion, er 1 Medi 2022.

Dywed y cynigiwr fod ystâd dai newydd wedi'i hadeiladu yn y pentref dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a bod caniatâd cynllunio ar gyfer dwy ystâd arall. Gallai hyn arwain at gyfanswm o hyd at 39 o dai ychwanegol, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at fwy o alw am leoedd yn Ysgol Chwilog.

Mae'r cynigiwr yn esbonio'r ymresymiad y tu ôl i'r cynnig yn glir. Mae hyn yn cynnwys diffyg lle yn yr ysgol i fodloni'r cynnydd cyfredol yn nifer y disgyblion, ynghyd â'r rhagamcanion ar gyfer cynnydd pellach yn nifer y disgyblion o ganlyniad i dai newydd sydd wedi'u lleoli yn nalgylch yr ysgol.

## Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

## Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer y cynnig ac yn rhoi rhesymau ynghylch pam y mae angen newid.

Mae'r cynigiwr wedi nodi cryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol yn briodol. Mae'r cryfderau'n cynnwys cydnabyddiaeth gan Estyn o'r defnydd a wneir gan ddisgyblion o'r Gymraeg a'r gwelliannau amlwg yn y defnydd o TGCh ar draws llawer o weithgareddau'r ysgol. Y prif wendid, a'r hyn y mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymateb iddo, yw'r diffyg lle o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Mae'r cynigiwr yn cydnabod yr angen i gynnwys manylion ac ystadegau am bob un o'r pedair ysgol gyfagos y gallai'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori effeithio arnynt. Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r ysgolion, gan mai cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog yw unig nod yr ymgynghoriad. Mae'r cynigiwr yn cynnwys data cyfredol sy'n ymwneud â datblygiadau tai newydd, gan ragamcanu y gallai nifer y plant mewn 39 o dai newydd fod yn gyfystyr â thuag 16 o ddisgyblion oed cynradd.

Mae'r cynigiwr yn cynnwys arfarniad manwl o'r opsiynau, sy'n archwilio modelau posibl i ymateb i'r problemau y mae Ysgol Chwilog yn eu hwynebu. Mae'r 3 opsiwn yn cynnwys gwneud dim; creu capasiti ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion trwy

leoli dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog; neu greu capasiti ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle ysgol arall gyfagos.

Ar ôl cymharu'r 3 opsiwn yn erbyn 8 ffactor allweddol, daeth y cynigiwr i'r casgliad mai'r opsiwn dewisol oedd creu capasiti ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle Ysgol Chwilog, a fydd yn weithredol o fis Medi 2023.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau'r cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn datgan ei nod o gynnig addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y medrau a'r hyder sydd eu hangen ar ddisgyblion i'w galluogi i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth fwriadus i adroddiad arolygu diweddaraf Estyn, gan gynnwys prif bwyntiau'r adroddiad, fel yr arweinyddiaeth gref, corff llywodraethol ymroddgar a chefnogol, lefelau uchel o waith tîm ymhlith y staff, staff sy'n cyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae hefyd wedi cyfeirio at y 2 argymhelliad. Mae'r cynigiwr o'r farn, trwy roi'r cynnig ar waith i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol trwy greu dosbarth newydd, y bydd yn cefnogi'r ysgol i gyflawni ymhellach, er enghraifft trwy gynnig amgylchedd dysgu gwell i staff addysgu a dysgwyr yn yr ysgol, gan alluogi disgyblion yr ysgol i gael profiadau a chyfleoedd addysgol gwell.

Mae'r cynigiwr wedi sicrhau y byddai cyn lleied â phosibl o darfu ar ddisgyblion, gan y byddai'r gwaith i gynyddu nifer y lleoedd yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau'r haf. Byddai'r holl gostau o fewn y gyllideb, gan gynnwys cyllid i gyflogi athro am 2 flynedd. Byddai hyn yn caniatáu amser i'r niferoedd yn yr ysgol gynyddu o ganlyniad i ddatblygiadau tai ac i'r ysgol gynllunio strwythur staffio priodol i ymateb i'r cynnydd.

**Estyn's response to the proposal by Gwynedd Council to increase the capacity of Ysgol Chwilog from 65 to 95 pupils, by adding an additional classroom to be operational from 1 September 2023. This will be an increase of over 25% to the existing capacity.**

## Introduction

This is a proposal by Gwynedd Council to increase the capacity of Ysgol Chwilog from 65 to 95 pupils, by adding an additional classroom to be operational from 1st September 2023.

The proposer notes that the number of pupils at Ysgol Chwilog has increased consistently for several years, and the school has reached its full capacity of 65 pupils since 1 September 2022.

The proposer states that during recent years, a new housing estate has been built in in the village and there is planning consent for another two. This could result in a total of up to 39 additional houses and it is anticipated that this will lead to further demand in the need for places at Ysgol Chwilog

The proposer clearly explains the reasoning behind the proposal. These include a lack of space in the school to meet the current increases in pupil numbers and to meet the projection of further pupil increases as a result of new housing located within the school's catchment area.

## Summary/Conclusion

Estyn believes that the proposal is likely to at least maintain the current standards in terms of education, provision, and leadership and management.

## Description and benefits

The proposer has identified a clear rationale for the proposal and gives reasons why change is necessary.

The proposer has suitably identified strengths and weaknesses of the current situation. Strengths include recognition by Estyn of the use made of the Welsh language by pupils and the clear improvements in the use of ICT across many of the school's activities. The main weakness, and what the consultation is seeking to respond to, is the lack of space as a result of an increase in the number of children attending the school.

The proposer recognises the need to include the details and statistics of each of the four nearby schools that may be affected by the proposal in the consultation document. The proposer clearly states that none of the schools would be adversely affected by the proposal, since increasing the capacity of Ysgol Chwilog is the only aim of the consultation. The proposer includes current data that relates to new housing developments, projecting that the number of children in 39 new houses could translate into approximately 16 primary age pupils.

The proposer includes a detailed, options appraisal, that explores potential models to respond to the problems facing Ysgiol Chwilog. The 3 options include, to do nothing;

to create capacity for increased pupil numbers by locating a new classroom at Ysgol Chwilog; or to create capacity for an increase in the number of primary pupils in the Chwilog catchment area, by locating a new class on the site of another nearby school.

After comparing the 3 options against 8 key factors, the proposer concluded that the preferred option was to create capacity for the increase in primary pupils in the Chwilog catchment area by locating a new class on the Ysgol Chwilog site, to be operational from September 2023.

**Educational aspects of the proposal**

The proposer has considered appropriately the effects of the proposal on the quality of outcomes, provision, and leadership and management of the school. The local authority states its aim to providing an education of the highest possible quality that will give pupils the experiences, skills and confidence to enable them to develop into bilingual, successful and well-rounded citizens.

The proposer has given purposeful consideration to the latest Estyn inspection report, including the main points of the report, such as, the strong leadership, a dedicated and supportive governing body, high levels of staff teamwork, staff who deliver high quality learning experiences and the promotion of the Welsh language and culture of Wales. It has also referred to the 2 recommendations. The proposer believes that by implementing the proposal of increasing the school's capacity by creating an extra class, it will support the school to achieve further, for example by offer a better learning environment for teaching staff and learners at the school thus enabling the school's pupils to have better educational experiences and opportunities.

The proposer has ensured that there would be minimal disruption to all pupils as work to increase capacity would take place during the summer break. All costs would be within budget, including funding to employ a teacher for 2 years. This would allow time for the numbers at the school to increase as a result of housing developments and for the school to plan an appropriate staffing structure in response to the increase.

# Beth wyt ti'n feddwl?

## Holiadur disgyblion cynradd.

**Gall pethau newid yn eich ysgol yn fuan, a rydym eisiau gwybod beth ydych chi fel disgyblion yn ei feddwl am hyn.**

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried Cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023

1. **Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** (Ticiwch <u>un</u> dewis)

☐ ☐ ☐

Unrhyw sylwadau eraill?

Does gen i ddim sylwadau eraill

2. **Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o'r cynnig yma?**

Cael mwy o le yn yr ysgol fel bod dim angen i'r meithrin fynd i neuadd y pentref.

## 3. Oes rhywbeth yn dy boeni am hyn? Beth?

Does dim byd yn fy mhoeni am hyn.

## 4. Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?

Y pethau pwysicaf i mi yn yr ysgol ydi mynd i'r ysgol bob dydd a dysgu pethau newydd

**Diolch yn fawr am eich amser i lenwi'r holiadur yma.**

Byddwn yn ystyried eich atebion fel rhan o'r ymgynghoriad.
Defnyddiwch dudalen ychwanegol os hoffech ysgrifennu mwy.